**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC- 04-02 (p3)**

**Dyddiad:** 22 Mai 2002

**Amser:** 9.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3-4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** **LIFTING EVERY VOICE - Adroddiad ar yr Ymgynghori ar y Strategaeth Recriwtio a Dethol**

**Diben**

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal am hynt yr ymgynghori ar y Strategaeth Recriwtio a Dethol sy'n rhan o gynllun gweithredu'r Ysgrifennydd Parhaol i fwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad 'Lifting Every Voice' i gael gwared ar arferion gwaith a gweithdrefnau a allai wahaniaethu yn erbyn aelodau o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

**Crynodeb**

2. Cyflwynodd Roger McKenzie ai adroddiad 'Lifting Every Voice' i gyfarfod y Pwyllgor ar 21 Mawrth 2001. Sefydlodd yr Ysgrifennydd Parhaol grwp cyflawni, dan gadeiryddiaeth Roger McKenzie, i lunio cynllun gweithredu i roi'r argymhellion ar waith. Cyflwynwyd y cynllun gweithredu hwnnw i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2001 ynghyd â chynigion yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer ei roi ar waith. Cafodd y Pwyllgor wybod am hynt y cynllun yn y cyfarfod ar 30 Ionawr 2002 (papur EOC - 01 - 02 (p2)). Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2001 addawodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n rhoi adroddiad ar hynt y cynllun gweithredu bob chwe mis. Cyflwynir yr adroddiad hwnnw i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

**Amseru**

3. Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad ar hynt yr ymgynghori ar y strategaeth ddrafft ar recriwtio a dethol yn y cyfarfod hwn.

**Yr Ymgynghori**

4. Cafodd y Pwyllgor gopïau o'r strategaeth ddrafft ddiwygiedig ar ôl cyfarfod y Pwyllgor ar 30 Ionawr 2002. Roedd y drafft diwygiedig yn rhoi ystyriaeth i sylwadau Aelodau'r

Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw.

5. Dechreuwyd ymgynghori â'r staff ar y strategaeth ar 25 Chwefror. Gofynnwyd i'r staff ymateb erbyn 15 Mawrth. Caniatawyd wythnos arall ar gyfer cyfraniadau hwyr. Erbyn 22 Mawrth roedd tua 300 o ymatebion wedi dod i law gan tua 8.5% o'r staff. Mae gwaith ar y gweill i roi'r ymatebion mewn cronfa ddata er mwyn eu dadansoddi a'u gwerthuso. Disgwylir y bydd y gwaith hwnnw ar ben erbyn canol mis Mehefin.
6. Pan fydd yr ymatebion wedi'u gwerthuso rhoddir ystyriaeth i ddiwygio'r strategaeth ddrafft. Bydd y drafft diwygiedig yn cael ei drafod â'r Undebau Llafur ac fe'i hanfonir at y Pwyllgor er mwyn cael clywed unrhyw sylwadau.
7. Pan fydd y trafodaethau ar ben bwriedir llunio cynllun cyflawni a fydd yn nodi amserlen ar gyfer cyflwyno'r strategaeth newydd. Yn rhan o'r cynllun cyflawni bydd strategaeth gyfathrebu i roi gwybod i'r staff am y gweithdrefnau newydd. Rhagwelir y rhoddir y rhain ar waith yn ystod yr hydref ac y bydd y gwaith ar ben erbyn diwedd mis Tachwedd.

**Cynllun Peilot Recriwtio i Fand F**

8. Fel y gwyr y Pwyllgor, cynhaliwyd rhaglen recriwtio i Fand F ochr yn ochr â'r cyfnod ymgynghori a hynny gan ddefnyddio gweithdrefnau arfaethedig y strategaeth ddrafft cyhyd ag yr oedd modd. Mae'n amlwg bod gennym lawer o wersi i'w dysgu o'r peilot ac yn arbennig o safbwynt logisteg ac agweddau ymarferol. Trefnwyd bod cwmni annibynnol yn gwerthuso'r broses honno. Bydd canlyniad yr adroddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i fapio manylion y broses recriwtio. Disgwylir i'r broses newydd gael ei chyflwyno'n ffurfiol ar yr un pryd ag y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn mabwysiadu'r Strategaeth Recriwtio a Lleoli Staff. Parheir i ddefnyddio prosesau recriwitio agored i'r graddau eraill tra bydd y strategaeth yn cael ei thrafod â'r Undebau Llafur.

**Cydymffurfio**

9. Nid oes materion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb yn deillio o'r papur hwn.

**Themâu trawsbynciol**

10. Drwy roi'r strategaeth recriwtio a dethol ar waith bydd y Cynulliad yn dangos ei ymrwymiad i gyfle cyfartal.

**Camau i'w Cymryd**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi hynt y strategaeth ddrafft ar recriwtio a lleoli staff. Rhoddir y newyddion diweddaraf yn adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Pwyllgor ar hynt y cynllun gweithredu yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

**Delyth Thomas**